

**COFNODION CYFARFOD CYDBWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL
BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY
A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF
DDYDD GWENER, 24 MEHEFIN 2016**

AELODAU

Y Cyngorwyr Derek Butler (CSFf), Hugh Evans (CSDd) Hugh Jones (Cadeirydd) (CBSW) a Huw Jones (CSDd).

Hefyd yn bresennol – Andy Worthington (Cadeirydd Partneriaeth yr AHNE), Paul Mitchell (Cyfoeth Naturiol Cymru), Howard Sutcliffe (Swyddog yr AHNE), Gary Williams (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, CSDd), Martin Howarth (Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, CBSW), Ros Stockdale (Warden Partneriaeth Ardal y De), David Shiel (Swyddog Cynorthwyol yr AHNE), Ceri Lloyd (Swyddog SDF yr AHNE), Huw Rees (CSDd) a Marie Russell (Swyddog Pwyllgor, CBSW).

1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cyngorwyr Bernie Attridge (CSFf), Ian Roberts (CBSW) a Tom Woodall (CSFf).

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

2 ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

CYTUNWYD:-

- (i) **Bod y Cyngorydd Hugh Jones (CBSW) yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Cydbwyllgor;**
- (ii) **Bod y Cyngorydd Huw Jones (CSDd) yn cael ei benodi'n Is-Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor;**

3 PENODIADAU'R AHNE I FWRDD TREFTADAETH Y BYD A BWRDD CADWYN CLWYD

Darparodd Swyddog yr AHNE ddiweddariad llafar mewn perthynas â'r seddi gwag.

CYTUNWYD - Bod yr Is-Bwyllgor yn cefnogi'r cynigion canlynol:

- (i) **Bod y Cyngorydd Huw Jones (CSDd) yn cael ei enwebu i gynrychioli'r Cydbwyllgor ar Fwrdd Treftadaeth y Byd;**
- (ii) **Bod Sir y Fflint yn cyflwyno enwebiad ar gyfer swydd wag ar Fwrdd Cadwyn Clwyd;**
- (iii) **Bod adroddiad yn nodi'r gofynion ar gyfer aelod y Cyd-bwyllgor ar**

Fwrdd Cadwyn Clwyd a'r mecanweithiau adrodd ar gyfer adrodd rhyngddynt yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Cadwyn Clwyd.

4 COFNODION CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR

CYTUNWYD - Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror, 2016 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5 COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Worthington, Cadeirydd y Bartneriaeth i'r cyfarfod.

Amlygodd Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy'r prif bwyntiau o fewn y cofnodion.

CYTUNWYD- Bod cofnodion cyfarfod Partneriaeth yr AHNE a gynhaliwyd ar 13 Mai 2016 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

6 ALLDRO A CHYFRIFON 2015/16 Y CYDBWYLLGOR A CHYLLIDEB 2016/17

Cyflwynodd Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy'r adroddiad, gan gyfeirio'n benodol at Ddatganiad Cyfrifon ar gyfer 2015/16 (Atodiad 2), a oedd angen cymeradwyaeth ffurfiol.

Wrth drafod yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol, yn benodol:

- Mae cymeradwyo a llofnodi Ffurflen Flynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn ffurfiol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 yn ofyniad statudol cyn cynnal Archwiliad Allanol o'r cyfrifon.
- Roedd cadarnhau'r gyllideb arfaethedig yn ddibynnol ar incwm gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol.
- Byddai rheolaeth effeithiol cyllidebau refeniw'r AHNE yn gymorth i ddarparu blaenoriaethau'r cynllun rheoli a gytunwyd ar gyfer y flwyddyn bresennol.
- Gwnaed cais ar gyfer manylion pellach ynglŷn â sut y byddai cyfanswm o £44,752 yn y gronfa wrth gefn ar gyfer cyllid prosiect yn cael ei wario. Cytunodd Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y byddai'n cylchredeg y wybodaeth hon.

PENDERFYNWYD:-

- (i) Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.**
- (ii) bod y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2015/16 yn cael ei gymeradwyo.**

7 CYFLWYNIAD GAN GYFEILLION BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

Darparodd Neville Howell, Ymddiriedolwr Sefydlu, Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, gyflwyniad i'r Cydbwyllgor, oedd yn darparu manylion o dan y penawdau canlynol:

- Aelodaeth Bresennol
- Dyluniad logo a gymeradwywyd
- Amcanion, o'r Cyfansoddiad (fel y cytunwyd gyda'r Comisiwn Elusennau)
- Digwyddiadau a drefnwyd hyd yma
- Digwyddiadau yn y dyfodol
- Beth nesaf? (hyrwyddo mewn ardaloedd cyfagos)

Cydnabu'r Cadeirydd frwdfrydedd Neville ar ran y Cydbwyllgor, a'i longyfarch ar y cynnydd a wnaed ganddo gyda'r Ymddiriedolaeth.

Awgrymwyd y gellir rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio priodol, ym mhob un o'r Awdurdodau Lleol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi'r cyflwyniad.

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AHNE

Cyflwynodd Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy'r adroddiad, gan gyfeirio'n benodol at y prif bwyntiau i'w hystyried.

Wrth drafod yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol, yn benodol:

- Roedd Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a'i aelodaeth cynyddol yn benodol (dros 130 o aelodau ar hyn o bryd), yn uchafbwynt mawr. Roedd Parc Gwledig Loggerheads wedi gweld newidiadau mawr ac roedd Cais Cynllunio ar gyfer ail faes parcio wedi'i gymeradwyo yn awr.
- Roedd gwaith parhaus ar y gweill mewn perthynas â Bioamrywiaeth.
- Wrth nodi'r mynediad cyfyngedig i adnoddau, roedd y Cydbwyllgor yn cydnabod y pwysigrwydd o gynnal cysylltiadau gyda CADW a gweithgorau eraill.
- Nodwyd bod gwaith ar y gweill gyda Cholegau a Chymdeithas Ffermwyr Ifanc er mwyn i blant mewn ysgolion dinesig yn Wrecsam ymweld â ffermydd yn Ardal Dyffryn Dyfrdwy. Nodwyd bod gwaith yn parhau gyda'r Ceidwaid Ifanc. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid tynnu mwy o sylw at gysylltiadau gyda'r gymuned ffermio yn yr adroddiad.
- Wrth nodi pwysigrwydd y gymuned amaethyddol, awgrymodd Swyddog yr AHNE y dylid sefydlu Cymhorthfa AHNE ym Marchnad Rhuthun i hyrwyddo gwaith gyda'r ffermydd yn yr ardaloedd cyfagos.
- Yr angen i hyrwyddo gwaith yr AHNE. Awgrymwyd y dylid dosbarthu'r

Adroddiadau Blynyddol Cryno yn ehangach yn y dyfodol, i unigolion perthnasol gan gynnwys ACau, ASau a Chynghorwyr perthnasol.

Diolchodd y Cadeirydd i Swyddog yr AHNE a'r holl staff oedd yn cyflawni'r gwaith yn ddyddiol.

PENDERFYNWYD - bod y Cyd-Bwyllgor yn derbyn a chefnogi Adroddiad Blynyddol yr AHNE.

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

Cyflwynodd Swyddog Cronfa Datblygu Cynaliadwy'r AHNE yr adroddiad, gan gyfeirio'n benodol at y prif bwyntiau i'w hystyried.

Wrth drafod yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol, yn benodol:

- Cyfeiriwyd yn benodol at rai o'r prosiectau mwyaf llwyddiannus, gan gynnwys 'Coed Actif Cymru', 'Darganfod Cefn Gwlad' a 'Brecwast Bryniau Clwyd'.
- Wrth symud ymlaen, roedd gostyngiad o £5,000 ers y llynedd ar hyn o bryd.
- Cafwyd dros 30 datganiad o ddi-ddordeb.
- Gobeithiwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol.
- Cydnabyddiaeth fod y Cynghorau Cymuned wedi cyfrannu tuag at gostau'r prosiectau a bod llawer o gydweithredu.

PENDERFYNWYD - Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.

10 CRYNODEB O YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO'R AHNE HYDREF 2015-MAWRTH 2016

Cyflwynodd Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy'r adroddiad er gwybodaeth yn unig.

Wrth drafod yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol, yn benodol:

- Cydnabyddiaeth fod cyfathrebu yn allweddol i lwyddiant y broses ymgynghori cynllunio.
- Dylai bod yr ymatebion yn cysylltu â'r dyletswyddau statudol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Cynigwyd y dylid rhoi cyfle i'r ymgeiswyr drafod eu syniadau mewn cymhorthfa 'galw heibio' cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio.

PENDERFYNWYD -nodi'r adroddiad.

11 **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yr adroddiad.

Wrth drafod yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol, yn benodol:

- Gwnaed cynnig i gomisiynu darn o waith i fapio nifer yr ymwelwyr â Loggerheads ac amseroedd poblogaidd yr ymweliadau hynny, er mwyn gallu cymryd ymagwedd strategol wrth ddelio â materion parcio.
- Bod angen gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill i sicrhau bod materion mewn perthynas â thagfeydd a pharcio yn cael eu datrys.
- Roedd y prosiectau er lles y boblogaeth leol ac nid ymwelwyr yr ardal yn unig.
- Dylid hyrwyddo cyrchfannau eraill yng Ngogledd Ddwyrain Cymru fel rhan o'r Cynlluniau Strategol ar gyfer 2014-16.
- Cadarnhau y dylai Cyd-Bwyllgor yr AHNE barhau i weithio'n agos gyda Bwrdd Safle Treftadaeth y Byd.
- Cydnabod bod Gweithgor Rheoli Tir y Bartneriaeth yn edrych ar linellau grid cenedlaethol. Roedd hyn yn creu cyfle i weithio gyda ffermwyr.

PENDERFYNWYD - Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.

12 **CYFLWYNIAD AR BROSIECT PARTNERIAETH YR AHNE A CHYFOETH NATURIOL CYMRU**

Darparodd Ros Stockdale (Warden Partneriaeth Ardal y De) a David Shiel (Swyddog Cynorthwyol yr AHNE) gyflwyniad ar y cyd oedd yn tynnu sylw at rai o'r prosiectau a gefnogir gan Brosiect Partneriaeth yr AHNE a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad ardderchog.


PENDERFYNWYD -y dylid nodi'r cyflwyniad.

13 **DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Penderfynwyd – Y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor ar 18 Tachwedd 2016.

Cynghorydd Hugh Jones(CBSW)
Cadeirydd

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Aelodau Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener, 21 Hydref 2016

yn
Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug
am 10:30am

Aelodau Partneriaeth AHNE

Yn cynrychioli Rheoli Tir

Gareth Wyn Jones

Cynrychiolydd Mynediad a Hamdden

Andrew Worthington OBE (Cadeirydd)

Sandy Archdale

Diddordeb Unigol

John I Roberts

Cynrychiolwyr Diddordeb Gwledig

Christine Evans

Roger Cragg

Cynrychiolydd Diddordeb Busnes

Dewi Davies

Diddordeb Trefol

(Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth Y Byd)

Del Roberts-Jones

Diddordeb Unigol

David Davies

Cynrychiolydd Diddordeb Tirlun

Michael Skuse

Cynrychiolydd Diddordeb Hanesyddol

Tony King

Cynrychiolwyr AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE)

David Shiel (Swyddog AHNE Cynorthwyol)

Tony Hughes (Swyddog Cynllunio AHNE)

Karen Holthofer (Swyddog Cyfathrebu AHNE)

Ceri Lloyd (Swyddog Datblygu Cynaliadwy AHNE)

Helen Mrowiec (Uwch Swyddog Hamdden AHNE)

Cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cynghorydd RJ Dutton OBE

Anna Irwin (Uwch Swyddog Cadwraeth ac Amgylchedd)

Cynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorydd Merfyn Parry

Y Cynghorydd Martyn Holland

Cynrychiolwyr Cyngor Sir y Fflint

Y Cynghorydd Paul Cunningham (Is-gadeirydd)

Cynghorydd Colin Legg

ynghyd â

Tom Woodall

(Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad CSFf a ROW)


Arsylwr Cyfoeth Naturiol Cymru

Paul Mitchell

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: -

Cyng. Hugh Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyng. Huw I Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Cyng. Stuart Davies,

Cyng. Lloyd Kenyon, Huw Rees, Ian Papworth, Helen Walker, Sharron Jones



Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd yr aelodau i gyfarfod hydref y Bartneriaeth.

Y Cynghorydd Huw L Jones (Cyngor Sir Ddinbych)

Dywedodd y Swyddog AHNE ei fod yn falch o ddweud bod y Cynghorydd Huw Jones, yn dilyn ei salwch difrifol, yn gwneud cynnydd da a bellach gartref yn gwella.

Cam gweithredu

I anfon dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Huw Jones ar ran y Bartneriaeth.

1. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2016
Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

Materion yn codi

3.2 Aelod Newydd i'r Bartneriaeth

Cynrychiolydd Trefnol (Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth Y Byd)

Dywedodd y Swyddog AHNE wrth y cyfarfod bod aelod newydd wedi'i phenodi bellach sef Del Roberts-Jones. Croesawodd y Cadeirydd Del i'r Bartneriaeth a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at ei chyfraniad.

9.1 Parcio o fewn yr AHNE

Eglurodd y Swyddog AHNE Cynorthwyol bod y Gweithgor Rheoli Tir ac Amgylchedd Naturiol / Hamdden a Thwristiaeth yn edrych ar dagfeydd a pharcio ar draws yr AHNE ar hyn o bryd. Roedd adolygiad byr wedi ei drefnu i ddadansoddi data sydd ar gael, ac i sefydlu darlun ehangach o'r sefyllfa o ran parcio. Roedd ardaloedd â phroblem yn cynnwys Rhaeadr Y Bedol a'r Safle Treftadaeth Y Byd, Loggerheads a Moel Famau.

Maes Parcio Uchaf yn Loggerheads.

Roedd y maes parcio newydd ar agor bellach yn Loggerheads, a fydd yn cynnwys oddeutu 70 o fannau parcio ychwanegol i geir.

9.2. Gweithgor Tirweddau'r Dyfodol Cymru

Adolygiad o Dirweddau Gwarchodedig yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni adolygiad o dirweddau a gwarchodedig yng Nghymru Mynychodd y Swyddog AHNE a Swyddog AHNE Cynorthwyol y cyfarfodydd o'r Gweithgor, a dywedodd y Swyddog AHNE y bydd adroddiad drafft yn cael ei ddsbarthu gan Llywodraeth Cymru erbyn mis Tachwedd.

2. Diweddariad gan y Swyddog AHNE

Rhoddodd y Swyddog AHNE grynodedig byr o'r prosiectau y mae'r AHNE wedi bod yn rhan ohonynt yn ddiweddar: Gŵyl Gerdded Wrecsam, Wythnos Fusnes Cyngor Sir Y Fflint a Gŵyl Gerdded Prestatyn.

Roedd y Swyddog AHNE wedi cwblhau cyflwyniad i Bwyllgor Craffu Cyngor Sir Y Fflint a gafodd ei dderbyn yn dda, a phwysleisiodd y pwysigrwydd o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tri Awdurdod Lleol ar yr holl waith/ prosiectau y mae'r AHNE wedi'u cwblhau.

2.1 Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Genedlaethol yr AHNEau (NAAONB)

Cynhaliwyd cynhadledd eleni yn Lilleshall yng Nghanolbarth Lloegr, ac roedd rhai o aelodau'r Tîm AHNE wedi arwain trip maes ar gyfer aelodau o'r gynhadledd. Bu i'r cynrychiolwyr feicio o Fasn Trefor i Langollen gan ddilyn yr wybodaeth a ddarparwyd ar Safle Treftadaeth Y Byd ac ar ein Cynllun Partneriaeth 'Ein Tirwedd Darluniadwy'.

2.2 'Wythnos Eithriadol' Cymdeithas Genedlaethol yr AHNEau (NAAONB)

Cafodd Wythnos Eithriadol (17 – 25 Medi) ei gyd-drefnu gan y NAAONB, ac roedd yr ymgyrch ar gyfer pob AHNE ledled Cymru a Lloegr, i hyrwyddo pwysigrwydd ecolegol a gwerth economaidd yr AHNE ar holl safleoedd cyfryngau cymdeithasol am wythnos. Roedd y mwyafrif o AHNE wedi trefnu digwyddiadau ar gyfer yr wythnos honno. Roedd y Swyddog AHNE wedi arwain tair taith gerdded ar ran AHNE, a bu i Gyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy gyfrannu at y digwyddiad hefyd.

Roedd yr ymgyrch yn llwyddiant a bydd yn cael ei gynnal yn flynyddol.

2.3 Menter Gwelliant Gweledol (VIP) y Grid Cenedlaethol sydd wedi'i gynnwys yn Menter Gwella Tirwedd (LEI)

Eglurodd y Swyddog AHNE bod y LEI yn rhaglen genedlaethol ar raddfa fawr gan y Grid Cenedlaethol i liniaru effaith y llinellau uwchben mewn tirwedd warchoddedig.

Mae'n cynrychioli pob AHNE ar y Grŵp Llywio VIP. Eglurodd y byddai'r mwyafrif o'r cyllid yn cael ei fuddsoddi mewn llinellau trawsyrru mawr danddaearol mewn nifer o Barciau Cenedlaethol/ AHNEau. Yn anffodus, nid oedd ein AHNE yn flaenoriaeth i waith dan ddaear y tro hwn, ond bydd yn gymwys am grantiau sylweddol drwy'r LEI (hyd at £200,000 i bob prosiect) i helpu lliniaru effaith leol.

Bydd yr AHNE yn cyflwyno datganiad diddordeb i brosiectau sy'n gysylltiedig gyda llinellau uwchben Corwen – Treuddyn a Thremeirchion. Roedd y prosiectau yn dal i gael eu datblygu mewn partneriaeth â ffermwyr a thirfeddianwyr, ac bydd yn cynnwys er enghraifft, grantiau i waith plannu gwrychoedd a choed a rheoli mynl ffordd. Roedd y prosiect LEI lleol yn cael ei ddatblygu a'i arwain gan y Gweithgor Rheoli Tir a'r Amgylchedd Naturiol.

2.4 Rhaglen Tanddaearu Llinellau Uwchben Scottish Power

Roedd y fenter hon ar gyfer cynlluniau foltedd isel, y safleoedd sydd wedi eu cynnig yw:

Moel y Parc, Bwlch yr Oernant (i fyny at Ponderosa), Parc Gwledig Tŷ Mawr, Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Rhaeadr y Bedol a chaffi Bwth Tollau ar yr A5.

2.5 Gwaith Trin Carthion yn ymyl Traphont Ddŵr Pontcysyllte

Diweddarodd y Swyddog AHNE yr aelodau ar nifer o gamau gweithredu sy'n cael eu gwneud i bwysu ar gael gwared neu adfer y dolur i'r llygaid o fewn y Safle Treftadaeth Y Byd.

Roedd Gweithgor Cymeriad Tirwedd a'r Amgylchedd Adeiledig yn arwain yr eitem hwn.

3. Cyflwyniad: 'Prosiect Ein Tirwedd Darluniadwy'

Rhoddodd Sarah Jeffery, Swyddog Prosiect gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint roi cyflwyniad clir a manwl ar y prosiect gan egluro bod y 'prif olygfeydd' yr ardal

prosiect yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd, gyda chynigion yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i adfer y golygfeydd.

Roedd y trafodaethau cyfredol yn cynnwys; Tagfeydd a Meysydd Parcio, Cynnal arolygon ac ymgysylltu â gwahanol grwpiau yn y gymuned, Dehongliad o'r safleoedd - i greu ymdeimlad o gyrraedd yn yr ardal.

Roedd Cam Un o'r prosiect yn cynnwys cynnal Ymgynghoriadau a sicrhau Arian Cyfatebol. Roedd gwaith cyfredol yn cynnwys Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned. Cynlluniau i adfer y Glyn ym Mhlas Newydd a chynllun ar gyfer safle Wernffrwd – yn Llangollen. Cynhaliwyd pump digwyddiadau ymgynghori, ac ar y cyfan roedd llawer wedi mynychu.

Cafwyd trafodaeth. Cynigiwyd y dylai ymgysylltiad ag ysgolion/ plant ysgol fod yn faes allweddol yn y prosiect. Dywedodd Del Roberts Jones bod Dyffryn Dyfrdwy wedi croesawu'r prosiect, gyda'r gymuned wedi ymgysylltu'n dda.

Dywedodd un aelod bod rhaid pwysleisio'r term 'darluniadwy' drwy gydol y prosiect, oherwydd efallai ni fyddai'n cael ei ddeall yn iawn yn y cyd-destun hwn:

“The word **picturesque** referred to an ideal type of landscape that has an artistic appeal, in that it was beautiful, but also with some elements of wildness or irregularity” - Gwefan Tate Art Gallery

Dywedodd aelod arall ei fod yn aelod o'r Grŵp Hanesyddol Thomas Pennant, a bod y Prosiect Darluniadwy wedi cael ei drafod mewn cyfarfod diweddar.

Cytunodd pawb ei fod yn brosiect gwych a fydd yn creu llawer o fanteision i'r AHNE a'r Safle Treftadaeth Y Byd. Roedd yr aelodau yn edrych ymlaen at glywed am gynnydd y prosiect. Diolchodd y Cadeirydd i Sarah Jeffery am gyflwyniad diddorol iawn.

4. Grwpiau Gweithio mewn Partneriaeth

Rhododd Cadeiryddion y Gweithgorau ddiweddariad byr ar lafar ar gynnydd y grwpiau.

Adroddiad gan Cadeiryddion y Gweithgorau

4.1 Gweithgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF)

Dywedodd Mike Skuse bod 27 prosiect wedi'u cymeradwyo eleni gyda chyfanswm o £58,000 wedi ei ddyrannu. Y cais lleiaf a gymeradwywyd oedd ar gyfer £300 am fap cymunedol o Garrog, a fydd yn cael ei osod yn y pentref. Y prosiect mwyaf a gymeradwywyd oedd ar gyfer £5,000, a fyddai ynghyd â chyfraniadau ychwanegol gan Cadwyn Clwyd, yn cael ei wario i adfer blychau ffôn coch eiconig i fod yn bwyntiau gwybodaeth i dwristiaid neu unedau diffibriliwr ayyb. Roedd prosiect buddiol arall a dderbyniodd £1,000, wedi ei anelu i ddarparu cludiant i grwpiau a oedd eisiau ymweld â'r AHNE, ond nid oedd ganddynt y cyllid i logi bws mini i wneud hynny. Mae'r prosiect hwn sy'n cefnogi grwpiau difreintiedig ac yn ei drydedd flwyddyn erbyn hyn. Darparwyd £5,000 o'r arian i'r Cynllun Grant Cefn Gwlad, mewn partneriaeth â Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt (FWAG). Roedd y cyllid ar gael i ffermwyr ar gyfer cynlluniau adfer, gan ddarparu 50% o'r gost (uchafswm o £1,000). Roedd pum cais yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Diolchodd Mike, ar ran y Gweithgor i Ceri Lloyd, Swyddog Datblygu Cynaliadwy a David Shiel, Swyddog AHNE Cynorthwyol am eu gwaith gwych parhaus.

Cafwyd trafodaeth. Dywedodd y Cynghorydd Owen Thomas ei fod yn cynrychioli Cyngor Cymuned Cilcain a Nannerch, a'i fod wedi mynychu'r cyfarfod heddiw i godi pryderon/ ymwybyddiaeth o ran nifer cynyddol o ymwelwyr i'r pentref sydd yn mynd i'r cefn gwlad o gwmpas. Roedd hyn yn rhoi pwysau ar gyfleusterau gan

gynnwys y cyfleusterau cyhoeddus sydd yn cael eu cynnal a'u cyllido gan y gymuned. Hefyd, cododd y Cynghorydd Thomas bryderon ynghylch parcio yng Nghilcain, gan egluro bod y maes parcio yn faes parcio cymunedol, sydd yn cael ei ariannu a'i gynnal gan gymuned Cilcain, ac felly yno ar gyfer defnydd y gymuned. Roedd y nifer cynyddol o ymwelwyr i'r pentrefi yn achosi problemau. Gofynnodd y Cynghorydd Thomas bod yr AHNE yn ystyriol o effaith ymwelwyr i'r AHNE ar y cymunedau lleol, a gofynnodd a fyddai unrhyw gefnogaeth i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Ymatebodd y Swyddog AHNE Cynorthwyol bod tagfeydd yn bryder gwirioneddol, a bod yr AHNE yn ystyried opsiynau ar sut i ymdopi gyda chapasiti o ymwelwyr i'r ardaloedd sydd â phroblemau yn yr AHNE. Dywedodd bod yr AHNE yn ymgynghori â chymuned Cilcain mewn perthynas â chyfleusterau lleol a sut y gellir eu cynnal.

Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd y bydd yr eitem hon yn cael ei ystyried gan y Bartneriaeth ymhellach, a diolchodd i Cynghorydd Thomas am ei gyfraniad.

PENDERFYNWYD

Bod y Bartneriaeth yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Ymchwilio i Gyllid Cronfa Datblygu Cynaliadwy

4.2 Gweithgor Cymeriad Tirwedd a'r Amgylchedd Adeiledig yr AHNE

Dywedodd y Cynghorydd Martyn Holland bod y grŵp wedi cyfarfod ar 14 Hydref, lle trafodwyd menter Awyr Dywyll. Adnabuwyd nad oedd rhai ardaloedd o'r AHNE yn ddigon tywyll i fodloni meini prawf Gwarchodfa Awyr Dywyll, ond roedd dynodiadau eraill. Roedd Cadwyn Clwyd wedi cadarnhau cyllid am £10,000, a bydd y prosiect yn gallu symud ymlaen yn awr.

Trafodwyd tanddaearu llinellau trydan uwchben, ac roedd yn galonogol bod rhai cwmnïau cyfleustodau yn cydweithio gyda'r AHNE mewn manau allweddol.

Hefyd, dywedodd y Cadeirydd bod cyflwyno cysylltiad band-eang gwell gan BT Open Reach wedi codi nifer o broblemau oherwydd lleoliad rhai o'r polion newydd. Fodd bynnag, cysylltwyd â BT ac roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt.

Trafodwyd Canllaw Cynllunio Atodol (SPG), roedd y SPG yn gam gweithredu hir sefydlog yng Nghynllun Rheoli AHNE. Roedd angen SPG i wella ansawdd datblygiad yn yr AHNE, ac i ychwanegu gwerth i'r broses gynllunio, a hyn felly yn lleihau'r nifer o geisiadau yr oedd yr AHNE yn gwneud sylwadau arnynt. Mater allweddol a ystyriwyd oedd newid defnydd Parc Gwyliau. Tir yn Chwarel Maes Mynan, Afonwen. Yn benodol codwyd pryderon ynghylch yr effaith ar dawelwch a golygfeydd o dir uwch yn yr AHNE.

Onnen yn Gwyro

Mae Onnen yn gwyro wedi ei ganfod yn Loggerheads. Mae Coeden Onnen yn goeden amlwg yn yr ardal ac mae effeithiau tymor hir posibl ar y dirwedd yn achosi pryder.

4.3. Treftadaeth, Diwylliant a Chymunedau

Dywedodd Christine Evans bod yr ail gyfarfod wedi'i gynnal yn Neuadd Goffa Trelawnyd ar 29 Medi, 2016. Dosbarthodd Fiona Gale gopïau o'r Cynllun Rheoli a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a thrafodwyd adroddiad a gyflwynwyd yn ddiweddar i Cyfoeth Naturiol Cymru, o waith a gyflawnwyd o fewn yr AHNE.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Gwaith rheoli yn Garnedd Gop
- Cloddfeydd ym Mhenycloddiau a Moel y Gaer, Bodfari
- Gwaith deongliadol yn Clive Engine House

Dywedodd Ian Grant o CPAT ar waith archeoleg cymunedol sydd wedi bod yn digwydd yn Tomen y Rhodwyd, a oedd yn golygu nad oes unrhyw eithin a phrysgwydd yng nghastell mwnt a beili.

Prosiect Ogofâu

Rhoddodd Wil Davies o Cadw, ddiweddariad ar lafar o'r Prosiect Ogofâu a ariennir gan Cadw, sydd yn digwydd ar y mannau calchfeini, yn rhannol yn yr AHNE. Mae rhai cloddfeydd wedi digwydd o fewn AHNE yn Llanarmon a Loggerheads.

Trafodwyd y difrod diweddar yn Ninas Brân (ac yn fwy diweddar yn Gop), a chanolbwyntiwyd ar rôl Swyddogion Trosedd Treftadaeth o fewn yr Heddlu. Soniwyd am y cyfleoedd posibl a ddarperir gan y Grid Cenedlaethol, Menter Gwella Tirwedd. Bydd Fiona yn darparu drafft o'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 15 Rhagfyr, 2016. Diolchodd y Cadeirydd i Christine am ei diweddariad.

4.4. Rheoli Tir a'r Amgylchedd Naturiol

Dywedodd Gareth Wyn Jones bod dau gyfarfod wedi'u cynnal hyd yma, ac yn y cyfarfod diwethaf trafodwyd y Cynllun Rheoli.

Prosiect Tirwedd Fyw Alyn a Chilwer

Rhoddodd Amy Green, Rheolwr Prosiect ddiweddariad ar lafar ar Brosiect Alyn a Chilwer. Eglurodd Amy bod y Prosiect Torri Ffromlys Chwarennog wedi bod yn llwyddiannus, ac roedd trapiau mewn lle ar gyfer mincod (mewn perthynas â Phrosiect Mincod).

Prosiect BIRDS

Roedd hwn yn brosiect posibl sy'n edrych ar Reolaeth Rhostir ar draws pum Ystâd Rhostir, Rhug, Nantyr, Vivod, Llanarmon a Rhiwabon. Trafodwyd Rheolaeth Rhostir.

Cynllun Gwella Tirwedd Grid Cenedlaethol (LEI)

Ystyriwyd y LEI, a dosbarthwyd mapiau a gwybodaeth ar gyfer Tremeirchion a Dyffryn Morwynion, gan mai'r rhain oedd y ddwy ardal yr oedd y prosiect yn berthnasol o fewn yr AHNE. Ystyriwyd chwistrellu rhedyn ac myl ffyrdd yn Nhremeirchion, a chyflwynwyd Datganiad o Ddiddordeb.

Cynllun Pori Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWGS)

Roedd hwn yn Gynllun Rheoli Cynaliadwy, a chyflwynwyd Datganiad o Ddiddordeb. Roedd y cynnig datganiad o ddiddordeb yn aflwyddiannus ond bu i'r cais sgorio'n uchel. Gwahoddwyd AHNE i ailgyflwyno'r cais i'r rownd nesaf a oedd yn cau ar ddiwedd mis Tachwedd.

Wrth grynhoi, dywedodd Gareth ei fod yn mwynhau ei amser ar Bartneriaeth AHNE, a byddai'n gwneud ei orau i gynorthwyo'r AHNE lle bynnag ag y gallai.

4.5 Hamdden, Twristiaeth ac Ymgysylltu Busnes

Dywedodd Dewi Davies bod Helen Mrowiec yn ymchwilio'r posibilrwydd o gael gwybodaeth gan CAMS (Meddalwedd Rheoli Mynediad Cefn Gwlad) ar ran y grŵp i wneud cais am wybodaeth o ran statws llwybrau cerdded/ llwybrau tramwy.

Milltiroedd Cymunedol

Dosbarthodd Hannah Arndt restr o'r 15 llwybr Milltiroedd Cymunedol gan gynnwys pum llwybr nad oedd o fewn yr AHNE. Roedd holl daflenni ar gael ar fersiwn pdf y gellir eu lawrlwytho oddi ar wefannau AHNE neu Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych. Dywedodd Dewi fod Milltiroedd Cymunedol yn brosiect ac adnodd gwych.

Prosiect Etifeddiaeth Calchfaen

Trafodwyd y Prosiect Etifeddiaeth Calchfaen, a bydd taflen newydd yn cael ei llunio erbyn diwedd y flwyddyn.

Data Mynediad Ymwelwyr

Dosbarthwyd yr ystadegau ar nifer yr ymwelwyr a thueddiadau i'r grŵp, ystyriwyd tagfeydd a chytunwyd y dylid comisiynu'r adolygiad i fynd i'r afael â thagfeydd ar draws yr AHNE, gan fyddai'r gwaith hwn tu hwnt i alluedd presennol y tîm AHNE, a dylid mynd i'r afael â hyn drwy Safbwynt Rheoli Cyrchfan. Bydd crynodeb dwy dudalen o hyd yn cael ei baratoi yn y cyfamser.

Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy

Eglurodd Dewi y gofynnwyd i'r grŵp ddatblygu rhestr o brosiectau segur awgrymedig, os bydd neu pan fydd cyllid ar gael yna bydd y prosiectau yn barod i gael eu dechrau.

Adolygiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP)

Roedd gofyn i ROIWPau gael eu hadolygu bob 5 mlynedd. Roedd Cyngor Sir y Fflint yn cyflwyno cynllun o fwriad cyn diwedd mis Hydref, mae gofyn hefyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ddinbych i wneud hyn ar ddyddiad diweddarach. Bydd y grŵp yn cael ei ymgynghori fel rhan o'r broses adolygu ROWIP.

Cafwyd trafodaeth. Dywedodd y Cadeirydd y bydd uno'r data a gasglwyd a'i ddadansoddi yn nod allweddol ar gyfer y grŵp.

Nododd nifer o aelodau bod mwy nag un Gweithgor yn ystyried parcio o fewn yr AHNE. Eglurodd y Swyddog AHNE Cynorthwyol efallai y bydd nifer o Weithgorau angen ystyried parcio/ tagfeydd. Fodd bynnag, h.y. Grŵp Arweiniol a Grŵp Cyflenwi a chynnal cyfarfodydd ar y cyd. Bydd yr holl ganfyddiadau yn dod yn ôl i'r Bartneriaeth i'w trafod.

Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn amlwg bod llawer o waith wedi'i gwblhau o fewn y Gweithgorau, a fyddai'n cael eu bwydo'n ôl i'r Cyfarfodydd llawn o'r Bartneriaeth ac roedd hyn angen ei ganmol.

Diolchodd y Cadeirydd i Gadeiryddion y Gweithgorau am eu diweddariadau.

5. Fforwm Blynyddol AHNE

Thema eleni oedd yr 'Amgylchedd Naturiol'.

Cynhelir y Fforwm dydd Mercher, 30 Tachwedd 2016 yn

Theatr Twm y Nant, Dinbych 6pm – 8.30pm

Siaradwyr yn y Fforwm fydd:

Martin Clift – RSPB

Amy Green – Prosiect Tirwedd Alyn a Chilwer

Sarah Bird – Sŵ Caer

Gwahoddwyd holl aelodau i fynychu.

5.1 Aelodau Lleol a Chynghorau Cymuned o fewn y Fforwm Blynyddol AHNE

Cynhelir y Fforwm eleni dydd Llun, 5 Rhagfyr yn

Ystafell Gyfarfod Loggerheads 4.30pm – 6.30pm

Pwrpas y Fforwm oedd rhoi diweddariad i'r holl Aelodau Lleol a Chynghorau

Cymuned o'r gwaith y mae'r AHNE wedi ei gyflawni o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

6. **Adolygiad o Dyddiau Ymgyfarwyddo AHNE**

Dywedodd y Swyddog AHNE bod dau ddiwrnod Ymgyfarwyddo wedi'u cynnal ers y cyfarfod diwethaf, Bryn Prestatyn a'r trên stêm drwy Ddyffryn Dyfrdwy o Langollen i Orsaf y Berwyn a Rhaeadr Y Bedol. Cynhelir y digwyddiad nesaf dydd Gwener, 4 Tachwedd gydag ymweliad i Bryngaer Caer Drewyn, Corwen. Dywedodd y Swyddog AHNE bod y dyddiau wedi bod yn llwyddiant mawr ac wedi galluogi aelodau i rwydweithio gyda'i gilydd yn ogystal ag ymweld â phrif safleoedd yr AHNE.

Cynigiwyd y dylid cynnwys ymweliad safle yng nghyfarfod yr haf o'r Bartneriaeth. Cafwyd trafodaeth. Dywedodd y Cynghorydd Paul Cunningham bod y Dyddiau Ymgyfarwyddo wedi bod yn wych, ac roedd ef ac aelodau eraill wedi dysgu llawer iawn am yr AHNE. Gofynnodd yr Aelodau i nodi y dylid ystyried aelodau sydd methu cerdded ymhell wrth feddwl am ymweliadau safle yn y dyfodol. Byddai ymweliadau i weld prosiectau gwaith penodol yn ddefnyddiol, a chefnogwyd y syniad hwn.

PENDERFYNWYD

- Cynnal ymweliad safle ar y cyd â Chyfarfod yr Haf o'r Bartneriaeth.
- Rhoi ystyriaeth i aelodau sydd methu cerdded yn bell.
- Ymweliadau safle/ prosiect penodol i ategu Dyddiau Ymgyfarwyddo.

7. **Cais am Warchodfa Awyr Dywyll**

Rhododd y Swyddog AHNE Cynorthwyol grynodedb o fanteision y prosiect hwn mewn perthynas â chadw tawelwch a bioamrywiaeth yn yr AHNE, ynghyd â chyfleoedd datblygu twristiaeth a soniodd am y cynnydd ers y cyfarfod diwethaf. Roedd ychydig o gynnydd wedi ei wneud mewn cyfarfodydd gyda nifer o awdurdodau'r priffyrdd sy'n cyflenwi'r AHNE o ran goleuadau stryd. Bu i gais i Cadwyn Clwyd i gyllido astudiaeth ddichonoldeb cychwynnol i symud y prosiect Awyr Dywyll ymlaen wedi bod yn llwyddiannus, sicrhawyd grant o £10,000. Bydd yr astudiaeth yn cynnwys arolygon o ansawdd ac ehangder awyr dywyll yn y AHNE, ac asesiad o'r data mewn perthynas â'r meini prawf ar gyfer cydnabyddiaeth/ dynodiad ffurfiol ar gyfer yr holl ran neu rannau i'r AHNE fel ardal awyr dywyll. Dywedodd y byddai'n annhebygol i gael dynodiad llawn fel Gwarchodfa Awyr Dywyll ond bod dynodiadau eraill. Bydd cynllun gweithredu i symud y prosiect ymlaen ynghyd ag ymgysylltiad/ ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a busnes yn cael eu cynnwys hefyd.

8. **Gwobr AHNE ar gyfer 2016**

Cyflwynwyd wyth enwebiad

1. Siop Gymunedol/ caffi Llandegla
2. Highfield Park, Llangwyfan
3. Canolfan newydd i ymwelwyr yn Eglwys St Teclas
4. Cymuned Llandegla
5. John Harrison
6. Cyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
7. James Yale a Mike Worsley
8. Village Bakery

Dywedodd y Swyddog AHNE bod cyd-enillwyr i'r wobwr Gwirfoddolwyr - sef James Yale a Mike Worsley, a Chymuned Llandegla.

Awgrymodd y Swyddog AHNE bod gan AHNE ddwy wobwr:

Gwobr AHNE - am gyfraniad neilltuol i'r AHNE, a Gwobr Gwirfoddolwr - am waith gwirfoddoli neilltuol Cynigiodd Cynghorydd Paul Cunningham bod yr AHNE yn cael dwy wobwr flynyddol, eiliwyd hyn gan John Roberts.

Cafwyd trafodaeth ynghylch sgorio'r enwebiadau ac a ddylid cael targedau i'w bodloni er mwyn cael gwobr. Dywedodd y Swyddog AHNE nad oedd eisiau'r gwobrwyo fod yn rhy gymhleth.

Fodd bynnag, cytunwyd i ymchwilio i gael matrices sgorio cyn gwobrau y flwyddyn nesaf.

PENDERFYNWYD

- Cyflwyno Gwobrau AHNE 2016 i:
- Gwirfoddolwyr, James Yale a Mike Worsley
- Cymuned Llandegla gan gynnwys Siop Gymunedol a'r Ganolfan i Ymwelwyr yn Eglwys St Teclas
- Bydd matrices sgorio yn cael ei ystyried ar gyfer gwobrau y flwyddyn nesaf.

9. Unrhyw Fater Arall

9.1 Dywedodd yr Uwch Swyddog Adfywio wrth y cyfarfod bod AHNE wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau £33,000 o gyllid gan y Rhaglen Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Bydd y grant yn cefnogi prosiectau yn Gop, gwaith Coedwig Tan y Cut sydd yn gysylltiedig â Llwybrau a Hyrwyddir yn yr ardal.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniad i'r Gweithgorau a dywedodd drwy symud ymlaen, y bydd y grwpiau hyn yn parhau i gryfhau. Daeth y cyfarfod i ben.

10. Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol:

Cyfarfodydd Partneriaeth AHNE:
Dydd Gwener 10 Mawrth
Dydd Gwener 23 Mehefin 2017.
Dydd Gwener 6 Hydref 2017

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

**CYDBWYLLGOR
ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Cynhaliwyd: 25 Tachwedd 2016

Aelod / Swyddog Arweiniol: Howard Sutcliffe

Awdur yr Adroddiad: Helen Mrowiec, Uwch Swyddog Hamdden

Teitl: Eitem 5 Cynllun Busnes AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cynllun Busnes Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. (Atodiad 1)

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Cynllun Busnes AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cysylltu Camau Gweithredu Cynllun Rheoli'r AHNE ag adnoddau. Mae'r cynllun yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd, yn cysylltu â'r rhaglen waith i'r dyfodol ar gyfer yr AHNE a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Mae'n nodi'r adnoddau presennol a'r bylchau presennol mewn adnoddau sydd agen ar gyfer cyflwyno'r cynllun rheoli yn llawn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cydbwyllgor yn craffu ar ac yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, dirprwyo'r gwaith o'i gyflwyno i'r Swyddog AHNE.

4. Manylion yr adroddiad.

Gweler atodiad 1 sydd ynghlwm.

5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Mae Cynllun Busnes Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cysylltu'n uniongyrchol â'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Rheoli.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gost heblaw amser y swyddogion, mae angen ceisiadau am gyllid pellach ar rai o'r camau gweithredu cyn y gellir eu cyflawni.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Gweler Atodiad 2

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae gweithgor y Swyddogion AHNE wedi gwneud sylwadau ar strwythur drafft yr adroddiad. Mae'r Cynllun Busnes yn seiliedig ar y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Rheoli a oedd yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn yn uniongyrchol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?

Dim

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r sail Gyfreithiol yn Adran 101 (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle y gall awdurdodau Lleol wneud trefniadau i 'gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill drwy Gydbwyllgor'



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Tudalen 19

Cynllun Busnes Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 2016-19

CYNNWYS

1. Y Cynllun Busnes
2. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
3. Pwrpasau'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
4. Strwythur Llywodraethu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
5. Cyllideb Graidd
6. Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
7. Adnoddau staff
8. Cronfa Datblygu Cynaliadwy
9. Cyllidebau prosiect
10. Rhaglenni Gwaith

1. Y Cynllun Busnes


Mae'r Cynllun Busnes yn nodi'r rhaglen waith ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE) dros y tair blynedd nesaf, gan gysylltu â'r amcanion a'r camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun rheoli. Mae'r cynllun yn cwmpasu'r cyfnod o 2016-2019, ond bydd yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn. Mae'r Cynllun Busnes yn ymwneud â gweithredoedd y Cynllun Rheoli i'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ei ddarparu, gan nodi sut y gall adnoddau cyfyngedig gael eu defnyddio yn fwyaf effeithiol.

2. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ffurfio ffin ucheldir dramatig Gogledd Cymru, un o uchafbwyntiau golygfaol ysgytiol Prydain.

Mae'r AHNE yn cynnwys 390 cilomedr sgwâr o fryniau, rhostir grug, creigiau calchfaen a dyffrynnoedd coediog, sydd bron yn cyffwrdd yr arfordir ym Mryn Prestatyn yn y gogledd ac yn ymestyn mor isel i'r de â Moel Fferna, y man uchaf yn yr AHNE, sy'n 630 metr. Mae'r ardal yn cwmpasu cefn gwlad mwyaf godidog Prydain, hefyd Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen.

Heb eu darganfod gan lawer ond yn hawdd eu harchwilio, mae'r dirwedd odidog yn cynnig treftadaeth diddorol, diwylliant lliwgar, cynnig blasus a'r croeso cynhesaf. Mae Bryniau Clwyd yn gadwyn ryfeddol o gopaon grugog porffor, ac arnynt fryngaerau mwyaf trawiadol Prydain. Islaw'r mynyddoedd sy'n cael eu croesi gan Fwlch yr Oernant, mae Dyffryn Dyfrdwy yn ymdroelli drwy Langollen hanesyddol, lle mae Cymru yn croesawu'r byd yn yr Eisteddfod Ryngwladol. Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn llwybr hollbresennol ar hyd asgwrn cefn y tir hwn, gan gysylltu lleoedd arbennig yr ardal, yn ogystal â chysylltu â'r ardaloedd deheuol a Llwybr Arfordir Cymru thu hwnt.



3. Pwrpasau'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol


Diben statudol y dynodiad AHNE yw gwarchod a gwella harddwch naturiol. Wrth ddilyn y prif ddiben, dylid ystyried anghenion amaethyddiaeth, coedwigaeth, diwydiannau gwledig eraill ac anghenion economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol. Dylid rhoi sylw arbennig i hyrwyddo ffurfiau cynaliadwy o ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd sydd ynddynt eu hunain yn cadw a gwella'r amgylchedd.

Nid gweithgareddau hamdden yw amcan y dynodiad, ond dylai'r galw am hamdden gael eu bodloni i'r graddau nad yw'n gwrthdaro â'r prif ddibenion.

4. Strwythur Llywodraethu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Gellir crynhoi strwythur y trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn y siart isod:

Tudalen 22



Mae Awdurdodau Lleol wedi dirprwyo eu cyfrifoldeb am yr AHNE i Bwyllgor Gweithredol a elwir yn y Cyd-bwyllgor ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae dau aelod Gweithredol / Cabinet o Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'u penodi i Gyd-bwyllgor Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Y Cyd-bwyllgor yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae'r Bartneriaeth AHNE yn cynnwys 25 o aelodau. Mae 16 aelod yn cael eu penodi yn dilyn proses recriwtio agored. Mae Aelodau'r Pwyllgor Partneriaeth yn cynrychioli croestoriad o arbenigedd mewn meysydd diddordeb penodol er mwyn sicrhau bod cydbwysedd o aelodaeth yn cael ei gynnal (er enghraifft, Rheoli Tir, Amgylchedd Gwledig, Trefol, Tirwedd, Hamdden, Amgylchedd Hanesyddol, Amgylchedd Naturiol, a Busnes); mae tri lle yn cael eu cadw ar gyfer diddordeb unigol a thri ar gyfer Cyngorwyr Sir, un o bob awdurdod. Mae pum gweithgor yn eistedd o dan y Bartneriaeth AHNE sy'n cynghori ar gyflwyno gwaith:

- Rheoli Tir Cynaliadwy
- Hamdden a Thwristiaeth
- Cymeriad Tirwedd ac Amgylchedd Adeiledig
- Amgylchedd Hanesyddol
- Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Cydbwyllgor, Partneriaeth a Gweithgorau yn cael eu cefnogi gan dîm yr AHNE, swyddfeydd o fewn yr awdurdodau lleol, ond hefyd sefydliadau eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cynllun Rheoli AHNE

Mae'r Cynllun Rheoli AHNE yn ofyniad statudol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r cynllun presennol yn rhedeg o 2014 - 2019. Mae'r Cynllun Rheoli yn nodi Polisiâu, Amcanion a Chamau Gweithredu ar gyfer gofal a rheolaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae'n nodi blaenoriaethau yn y dyfodol. Gellir lawrlwytho copi o'r Cynllun Rheoli AHNE o <http://www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/plans-and-strategies/>

6. Adnoddau staff

Mae'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Rheoli AHNE yn cael ei arwain gan dîm yr AHNE, sy'n eistedd o fewn Cyngor Sir Ddinbych, yr awdurdod arweiniol ar gyfer yr AHNE mewn partneriaeth ag eraill. Mae'r swyddi staff canlynol yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r gyllideb AHNE, ond mae nifer o staff a gwirfoddolwyr eraill hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i gyflawni'r cynllun rheoli, o fewn Cyngor Sir Ddinbych a sefydliadau partner.

Swydd	Dyletswyddau	Swyddog
Prif Swyddog Cefn Gwlad / Swyddog AHNE	Rheoli polisiâu a chyllidebau	Howard Sutcliffe
Uwch Swyddog Cefn Gwlad / Swyddog AHNE Cynorthwyol	Cynllun Rheoli AHNE a Gwasanaeth Warden	David Shiel
Warden Partneriaeth Ardal y Gogledd	Prosiectau Cymunedol a gwirfoddoli – ardal y gogledd	Rachael Jones
Warden Cefn Gwlad	Cadwraeth natur, prosiectau mynediad a gwirfoddoli	John Morris Un swydd wag
Swyddog Cronfa Datblygu Cynaliadwy	Cronfa Datblygu Cynaliadwy a Thwristiaeth	Ceri Lloyd
Uwch Swyddog Hamdden	Hamdden ac Allgymorth	Helen Mrowiec
Swyddog Cynllunio	Defnydd Tir a Chynllunio	Tony Hughes
Rheolwr Cyfathrebu	Sgiliau	Karen Holthofer
Uwch Warden Cefn Gwlad (De)	Rheoli safle, prosiectau cadwraeth a mynediad	Rhun Jones
Warden Partneriaeth Ardal y De	Prosiectau Cymunedol a gwirfoddoli – ardal y de	Ros Stockdale

7. Cyllideb Graidd

	2015/16	2016/17
	£	£
<u>Gweithwyr</u>		
Cyflogau	199,852	205,968
Hyfforddiant a chynhadledd	500	1,000
Tanysgrifiadau	1,500	2,900
Yswiriant	936	936
Cyfanswm costau gweithwyr	202,788	210,804
<u>Arall</u>		
Llogi cerbydau	400	450
Miltiredd	5,000	4,000
Defnyddio Cludiant Cyhoeddus	300	500
Cyfanswm Costau Cerbydau a Theithio	5,700	4,950
<u>Arall</u>		
Dillad amddiffynnol	800	1,000
Gwisgoedd	0	1,500
Offer cyffredinol	150	150
Gwariant digwyddiadau	5,000	5,000
Ffioedd archwilio	1,134	1,134
Costau TG	900	900
Ffonau	920	1,100
Cyhoeddiadau	100	100
Cyfanswm gwariant arall	9,004	10,884
<u>Prosiectau</u>		
Grantiau	54,545	54,545
Cyfanswm costau prosiect	54,545	54,545

CYFANSWM GWARIANT

281,183


INCWM

Grant Cyflog CNC	-117,046	-118,063
Grant CDG	-54,545	-54,545
Cyllid ALI	-100,446	-108,575

CYFANSWM INCWM

-272,037

-281,183



281,183

8. Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn gweinyddu Cronfa Datblygu Cynaliadwy sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi cymorth i brosiectau amgylcheddol cynaliadwy. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru 2016/17 £55k i'r Arian Datblygu Cynaliadwy. Mae 10% o'r gronfa yn cael ei amsugno yn awtomatig gan gostau gweinyddol, mae £5k y flwyddyn yn cael ei ddyrannu tuag at y Cynlluniau Grantiau Cefn Gwlad. Mae'r gronfa yn denu tua £115k o arian cyfatebol yn flynyddol, sy'n cynrychioli gwerth gwyth am arian. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r gronfa wedi ymgysylltu â 50+ o gymunedau/grwpiau. O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cymru yn galw am gyllid ychwanegol, mae hyn yn tueddu i ddigwydd tua diwedd y flwyddyn pan fydd tanwariant wedi'i nodi mewn man arall o fewn Llywodraeth Cymru. Yn 2015 rydym wedi gwneud cais am £6k ychwanegol i gefnogi dau brosiect. Bob blwyddyn, mae'r cyllid yn cael ei ordanysgrifio 50%.

Enghreifftiau o SDF ar waith (2016)

- Prosiect Alyn a Wheeler - creu deunyddiau dehongli gan gynnwys taflenni a baneri pop-up. Nod y dehongliad oedd helpu partneriaid prosiect i hyrwyddo'r prosiect ac ennill diddordeb gan dirfeddianwyr a darpar wirfoddolwyr, yn ogystal â rhoi gwybod i bobl leol ac ymwelwyr am yr hyn sy'n digwydd yn yr ardal. Mae'r prosiect wedi gwella cynefinoedd ac hefyd wedi bod o fudd i gymunedau lleol trwy gysylltiad gwell â'u hamgylchedd lleol.
- Coed Actif Cymru - darparu lle yn yr awyr agored, heb fod yn feirniadol, gan ganiatáu i gyfranogwyr brofi ystod eang o fanteision corfforol, cymdeithasol a lles.
- Ymddiriedolaeth Wledig – Mae'r Ymddiriedolaeth Wledig, elusen gofrestrdig, yn gweithio mewn partneriaeth â 3 fferm lletyol, 1 ystâd a choetiroedd a Pharciau Gwledig yn yr AHNE i gynnig cyfle i blant o 9 ysgolion cyfagos gyda nifer uwch na'r cyfartaledd o blant dan anfantais, i ddarganfod sut fwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn y cefn gwlad sydd o amgylch y trefi a'r dinasoedd lle maent yn byw. Cafodd bob ysgol gyfle i ymweld â fferm sy'n gweithio mewn gwahanol dymhorau.
- Adfywio Ffôn Ciosg - bydd yn darparu defnydd unigryw i giosgau ffôn coch K6 Giles Gilbert Scott sy'n nodweddion eiconig o fewn yr AHNE. Mae gan Gynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 2014-2019 amcanion penodol i ddiogelu nodweddion hanesyddol bychain. Mae'r cymunedau canlynol ynghlwm ar hyn o bryd;
 - Llantysilio,
 - Llanarmon Yn Iâl,
 - Bryneglwys
 - Nannerch
 - Gwaunysgor
 - Eryrys

Mae defnyddiau enghreifftiol yn cynnwys troi ciosgau yn Fannau Gwybodaeth i Dwristiaid (TIPs) gyda phanel dehongli, taflenni a gwybodaeth arall a fydd o ddiddordeb ychwanegol i'r rhai sy'n ymweld â'r AHNE a'u hannog i archwilio'r ardal ymhellach, gan ymestyn eu harhosiad.

9. Cyllidebau prosiect

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn rhagweithiol wrth sicrhau adnoddau pellach i gadw a gwella nodweddion tirwedd arbennig Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a chynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a mwynhad pobl o'r dirwedd. Mae'r canlynol yn gyllidebau prosiect sylweddol ychwanegol a sicrhawyd i gyflawni uwchlaw a thu hwnt i'r hyn sy'n bosibl gyda'r gyllideb graidd ac yn dibynnu ar staff craidd yn cyflwyno ceisiadau cyllid i gyflwyno elfennau penodol o'r Cynllun Rheoli.

Prosiect	Swm	Cyllidwr	Cyfnod
Ein Tirwedd Ddarluniadwy	£67,900 yn erbyn cyfanswm costau'r prosiect o £96,612	Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Cam Datblygu 2016 - 2017 Bydd Prosiect Cyflawni yn ymwneud â chyfanswm cost prosiect o 1.763 miliwn o bunnoedd gyda grant HLF o 1.3 miliwn dros gyfnod o 5 mlynedd. Heb eu cynnwys o fewn y Gyllideb Graidd AHNE.
Coetir Alyn Actif	Grant NRW o £122,200 yn erbyn costau cynnwys o £250,400	Cyfoeth Naturiol Cymru	2016 – 2018 Heb eu cynnwys o fewn y Gyllideb Graidd AHNE.
Etifeddiaeth Calchfaen	Grant £150,667 NRW yn erbyn cyfanswm costau'r prosiect o £301,334	Cyfoeth Naturiol Cymru	2015 – 2018 Heb eu cynnwys o fewn y Gyllideb Graidd AHNE.
Prosiectau Mynediad AHNE Cyfalaf	£33,500	Llywodraeth Cymru.	2016/17

Tudalen 27

Cyflwynwyd datganiad o ddiddordeb i'r Fenter Gwella Tirwedd Grid Cenedlaethol sydd i'w benderfynu eto.

Rhaglenni Gwaith

Mae Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn amlinellu polisiau, amcanion a chymau gweithredu i gadw a gwella nodweddion arbennig y dirwedd a gellir ei lawrlwytho o <http://www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/plans-and-strategies/>

Mae'r polisiau, amcanion a chymau gweithredu wedi'u dosbarthu o dan 14 nodwedd tirwedd arbennig canlynol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy:

- Ansawdd a Chymeriad y Dirwedd
- Gweundir Grug a Chribau Eang
- Glaswelltiroedd Calchfaen, Clogwyni a Sgrïau.
- Coetiroedd llydanddail a Choed hynafol
- Dyffrynnoedd Afonydd
- Anheddiad hanesyddol
- Nodweddion Diwydiannol a Safle Treftadaeth y Byd
- Bryngaerau a Strwythurau Amddiffynnol
- Nodweddion Hanesyddol Bach
- Ffiniau
- Atyniadau Eiconig i Ymwelwyr a Diwylliant
- Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybrau a Hyrwyddir
- Yr Amgylchedd Adeiledig
- Pobl a Chymunedau

Tudalen 28

Mae'r rhaglen waith yn ymwneud â'r gweithgareddau a flaenoriaethwyd o dan bob un o'r themâu hyn ar gyfer darparu yn ystod cyfnod y cynllun busnes, gan eu cysylltu ag adnoddau a chynnydd. Mae cynnydd yn cael ei fesur fel **coch**: heb ddechrau, **Oren**: wedi dechrau ond cynnydd cyfyngedig, **Gwyrdd**: wedi dechrau ac ar y trywydd iawn. Mae'r testun mewn glas yn ddiwygiadau o'r Cynllun Rheoli Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a fabwysiadwyd.

Ansawdd a Chymeriad y Dirwedd

Camau Gweithredu Cynllun Rheoli	Arwain	Partneriaid	16/17	17/18	18/19	Cynn ydd	Adnoddau
Cefnogi Prosiectau Peilot Ynni Adnewyddadwy Cadwyn Clwyd a phrosiectau cymunedol eraill priodol sy'n ceisio lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd a lleihau ôl troed carbon yr AHNE heb niweiddio rhinweddau a nodweddion arbennig yr ardal neu ei chymeriad a'i hedrychiad. LQCO1	Cadwyn Clwyd / AHNE	Tirfeddianwyr / CNC					Amh.
Cefnogi'r Ymateb Naturiol i'r prosiect Perygl Llifogydd yn Nalgylch Clwyd yn enwedig mewn perthynas â 3336 i waith rheoli o fewn Bryniau Clwyd. LQCO1	Cadwyn / AHNE	Tirfeddianwyr / CNC	√				Prosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy a reolir gan Cadwyn Clwyd
Ymgysylltu â rhaglen Darpariaeth Effaith Weledol y Grid Cenedlaethol (VIP) i leihau effaith trosglwyddo foltedd uchel yn yr AHNE a'i amgylchedd. LQCO2	AHNE	Tirfeddianwyr	√	√	√		Arian i gael ei sicrhau gan y Grid Cenedlaethol
Hyrwyddo rhannu mastiau i leihau annibendod ac effaith ar gymeriad tirwedd leol yr AHNE. LQCO2	AHNE			√			Amser staff Darparwyr mast
Gweithio gyda'r diwydiant i gymhwyso'r saith 'Rheol Holford' a datblygu canllawiau ar gyfer mesurau lliniaru. LQCO2	AHNE		√	√	√		Amser staff
Paratoi canllawiau ar gyflwyno technolegau ynni adnewyddadwy i mewn i'r AHNE a'i lleoliad, er mwyn lleihau'r effaith ar gymeriad y dirwedd leol. LQCO3	AHNE			√			Amser staff
Annog a chefnogi mesurau cadwraeth ynni er mwyn helpu i gyrraedd targedau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer defnydd o ynni. LQCO3	AHNE		√	√	√		Amser staff
Annabod nodweddion arbennig yr AHNE sy'n sensitif i newid a monitro eu cyflwr. LQCO4	AHNE		√				Amser staff
	AHNE	Cyfeillion y CRDV		√			Amser staff Gwirfoddolwyr
Sefydlu rhaglen fonitro o olygfannau allweddol ar draws yr AHNE. LQCO5	AHNE	Cyfeillion y CRDV		√			Amser staff Gwirfoddolwyr
Gweithio gyda 3 Awdurdod Prifffyrdd ac Asiantaeth Cefnffyrdd i resymoli arwyddion traffig ar y ffyrdd a chytuno ar gyfres o ganllawiau ar gyfer arwyddion yn yr AHNE. LQCO5	AHNE / ALI	ACGC	√				Amser staff
Trefnu diwrnodau hel atgofion cymuned i ymgysylltu â chymunedau a thynnu ar eu cyfoeth o wybodaeth am yr ardal. - 1 y flwyddyn LQCO6	AHNE	ALI	√	√	√		Amser staff
Cefnogi'r gwaith ymchwil a chofnodi hanes cymdeithasol yr ardal. LQCO6	AHNE	ALI	√	√	√		Amser staff
Cynnal Fforwm AHNE blynyddol i ysgogi trafodaeth ar nodweddion arbennig yr ardal a sicrhau cyfranogiad cymunedol LQCO7	AHNE	ALI	√	√	√		Amser Staff / cyllideb AHNE
Cynnal Partneriaeth AHNE fel rhan o strwythur llywodraethu ar gyfer yr AHNE LQCO7	AHNE	ALI	√	√	√		Amser Staff / cyllideb AHNE
Gweithio gyda Grwpiau Gweithredu Lleol Cadwyn Clwyd i sicrhau bod amrywiaeth diwylliannol yn cael ei adlewyrchu mewn rhaglenni Cynllun Datblygu Gwledig sy'n ymwneud ag ymdeimlad o le. LQCO7	AHNE Cadwyn Clwyd	ALI	√	√	√		Amser staff
Gweithio gyda Menter Iaith i gefnogi a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg o fewn cymunedau'r AHNE. LQCO7	AHNE	Cadwyn Clwyd	√				Amser staff

Gweundir Grug a Chribau Eang

